OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 66

## Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010

## RHAN 3

Gweithredu yn dilyn methiant

**Gweithdrefn yn dilyn ymchwiliad**

**16.**—(1) Unwaith y bydd awdurdod lleol wedi cynnal ymchwiliad ac wedi canfod achos afiachusrwydd y dŵr, rhaid iddo weithredu yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Os yw achos y dŵr afiachus yn y pibwaith o fewn annedd sengl, rhaid iddo roi gwybod yn ddi-oed i'r bobl a wasanaethir a chynnig cyngor iddynt ynghylch y mesurau sy'n angenrheidiol i ddiogelu iechyd dynol.

(3) Fel arall, os na all yr awdurdod lleol ddatrys y broblem yn anffurfiol—

(a) caiff yr awdurdod lleol, os gwneir cais, ganiatáu awdurdodiad yn unol â rheoliad 17(2) os bodlonir yr amodau yn y rheoliad hwnnw; a

(b) os nad yw'n caniatáu awdurdodiad, rhaid i'r awdurdod lleol (neu, yn achos cyflenwad i annedd breifat sengl, caiff yr awdurdod lleol) gyflwyno hysbysiad, naill ai'n unol ag adran 80 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991(**1**) neu o dan reoliad 18 os bodlonir yr amodau yn y rheoliad hwnnw.

(**1**) 1991 p.56.